



# Mesur a Rheoli eich Gwerth Cymdeithasol Canllawiau Ymgeisio



## Tabl Cynnwys

Cyflwyniad ...	2
Beth ydy Gwerth Cymdeithasol a Chanfod Gwerth Buddsoddiad Cymdeithasol (SROI)	3
Pwy all ymgeisio?.....	6
Mesur .....	7
Rheoli .....	8
Y Dogfennau a Fynnir .....	9
Prosesu ceisiadau .....	10

# 1. Cyflwyniad

Bu Mantell Gwynedd, y Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) yng Ngwynedd, yn gweithio'n agos efo mudiadau ers 2015 i fesur a rheoli eu gwerth cymdeithasol. Yn 2017, buom yn llwyddiannus gyda chais am gyllid o'r Gronfa Loteri Fawr Cronfa Sgiliau'r Trydydd Sector. Mewn partneriaeth gyda Medrwn Môn, Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC), Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC), Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW), byddwn yn sicrhau y gall eich CGS lleol eich cyngori a'ch cefnogi i fesur eich gwerth cymdeithasol wrth fynd ymlaen.

Fel rhan o'r cyllid hwn, mae cyfle cyffrous i 30 o fudiadau (5 o bob sir yng Ngogledd Cymru) fesur a rheoli eu gwerth cymdeithasol. Mae hwn yn gyfle arbennig i weithio hefo'r CGS a Social Value Cymru i fesur eich effaith er mwyn dangos y newidiadau yr ydych yn eu creu ym mywydau pobl. Yn ogystal â hyn, byddwn yn gweithio'n agos efo'r Pwyllgor Rheoli i sicrhau bod y gwerth cymdeithasol sy'n cael ei ganfod gan eich cleientiaid a'ch buddiolwyr yn ddefnyddiol o ran sut y gwneir penderfyniadau.

Gyda'r fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru, mae hwn yn gyfle i ddangos sut mae eich mudiad yn dilyn prif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy sicrhau bod eich cleientiaid yn ganolog i bopeth a wnewch, a'u bod yn chwarae rhan yn eich prosesau penderfynu.

Er nad grant ariannol mo hwn, mae'r cymorth sydd ar gael yn fuddsoddiad gwerth chweil i'ch mudiad. Felly darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus os gwelwch yn dda, ac os ydych yn dymuno ymgeisio, anfonwch ffurflen gais wedi'i chwblhau ynghyd â chopi o unrhyw ddogfennau a fyynnir.

## 2. Beth ydy Gwerth Cymdeithasol a Chanfod Gwerth Buddsoddiad Cymdeithasol (SROI)

### Gwerth Cymdeithasol

**Mae gwerth cymdeithasol yn fodd i ni ddeall gwerth y newid ym mywydau bobl.**

Dechreuwch drwy ofyn y cwestiwn yma, sut fyddai'r bobl yr ydych yn gweithio'n agos efo nhw'n egluro'r canlyniadau pwysicaf iddynt yn sgil eich gweithgareddau? A fyddent yn edrych ar eich perfformiad ariannol? Neu a ydy'n fwy tebygol y byddent yn cyfeirio at bethau fel eu bod yn fwy hyderus, neu mewn iechyd gwell, mewn tai mwy addas, wedi rhoi'r gorau i ymddygiad niweidiol, neu wedi lleihau eu hanghenion o ran gofal iechyd a chymdeithasol?

Os ydy newidiadau o'r mathau hyn i fywydau pobl o ganlyniad i'ch gwaith chi, rydych yn creu gwerth cymdeithasol! Ond allwch chi egluro pa mor bwysig ydy'r newidiadau yma i bobl?

Drwy ofyn i bobl beth sydd wedi newid yn eu bywydau, gallwn ddechrau deall canlyniadau eich gweithgareddau – a dim ond drwy fesur y rhain y gallwn wir ddeall faint o effaith a gawn ar fywydau bobl.

Er enghraifft, os ydych yn darparu gwasanaethau i helpu pobl i ganfod ffyrdd iachach o fyw, ai dim ond diddordeb yn nifer y bobl yr ydych wedi gweithio hefo nhw sydd gennych, neu a oes gennych ddiddordeb yn y nifer sy'n iachach o ganlyniad i'ch gwaith? Mae'r ddau yn bwysig wrth gwrs, ond ddim ond drwy ddeall canlyniadau eich gwaith y gallwch fod yn hyderus fod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn gweithio. Nid yn unig hynny, drwy ddeall sut y mae pobl wedi newid o ganlyniad i'ch gwaith, gallwn hefyd roi gwerth i'r effeithiau pwysig ar fudiadau megis y GIG neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Social Value Cymru yn rhan o'r datblygiad sy'n adnabod ein bod yn medru rhoi gwerth ar newidiadau o'r fath, a gallwn weithio gyda chi i'ch helpu i gael gwell dealltwriaeth, i gyfathrebu a rheoli gwerth cymdeithasol eich gwaith.

**Mae'r trydydd sector / sector gwirfoddol yn creu llawer iawn o werth cymdeithasol, ond yn aml nid ydym y gorau am arddangos hyn. Beth am newid hynny a dweud ein stori gyda balchder o ran sut y mae'n gwaith yn creu newidiadau ystyrlon ym mywydau bobl, ynghyd ag arbedion i fudiadau a fyddai fel arall yn gweld cynnydd yn yr angen am eu gwasanaethau.**

## Canfod Gwerth Buddsoddiad Cymdeithasol

Mae amryw o ddulliau o fesur gwerth cymdeithasol – ac un o'r ymagweddau mwyaf effeithiol ydy'r fframwaith Canfod Gwerth Buddsoddiad Cymdeithasol / 'Social Return on Investment' (SROI). Mae'r dull yma yn ein caniatáu i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall beth sydd wedi newid yn eu bywydau a rhoi gwerth ar y newidiadau yma.

Wedi'i seilio ar [7 egwyddor](#), mae SROI yn ein galluogi i gymharu'r manteision yr ydym yn eu creu gyda chost gymharol eu cynhyrchu. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad cynhyrchu rhif yn unig yr ydym – y ffordd orau o feddwl am hyn efallai ydy fel stori o newid gyda thystiolaeth feintiol ac ansoddol.

## Egwyddorion Canfod Gwerth Buddsoddiad Cymdeithasol

1. **Cynnwys rhanddeiliaid** Deall y modd y mae'r mudiad yn creu newid drwy ddeialog gyda rhanddeiliaid.
2. **Deall beth sy'n newid** Cydnabod a chyfleu'r holl werthoedd, amcanion a rhanddeiliaid y mudiad cyn cytuno ar ba agweddau ar y mudiad a fydd yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y gwaith; a phenderfynu beth y mae'n rhaid ei gynnwys yn y cyfrif er mwyn i rhanddeiliaid gael gwneud penderfyniadau rhesymol.
3. **Gwerthfawrogi'r pethau sy'n cyfri** Defnyddio amcangyfrifon ariannol o werth er mwyn cynnwys gwerthoedd y rheiny nad ydynt wedi'u cynnwys mewn marchnadoedd yn yr un termau â'r rheiny a ddefnyddir mewn marchnadoedd.

4. **Cynnwys dim ond yr hyn sy'n berthnasol** Mynegwch yn glir sut mae gweithgareddau'n creu newid a gwerthuswch hyn drwy'r dystiolaeth a gasglwyd.
5. **Peidiwch â hawlio gormod** Cymharwch berfformiad ac effaith gan ddefnyddio meincnodau, targedau a safonau allanol priodol.
6. **Byddwch yn dryloyw** Dangoswch ar ba sail y gellir ystyried bod y canfyddiadau'n gywir ac yn onest; a dangoswch y byddant yn cael eu hadrodd i randdeiliaid a'u trafod gyda nhw.
7. **Gwiriwch y canlyniad** Sicrhewch fod y cyfrif yn cael ei wirio'n annibynnol.

(socialvalueuk.org)

## Beth ydy SROI?

Nid dull neu gysyniad newydd mo SROI. Mae wedi ei greu drwy edrych ar gyfuniad o ddulliau gwerthuso sydd wedi eu sefydlu'n gadarn, ac ar economeg iechyd ac amgylcheddol. Mae'n hoelio sylw ar ateb cwestiynau allweddol, gan gynnwys:

- Pwy sydd yn newid?
- Sut maent yn newid?
- Sut ydych yn gwybod?
- Faint o'r newid sydd oherwydd eich cymorth chi?
- Pa mor bwysig ydy'r newidiadau?

Mae cynnwys rhanddeiliaid yn sail i'r broses SROI gyfan. Drwy ofyn i bobl beth sydd wedi newid (neu beth fydd yn newid) iddyn nhw, gallwn ddeall canlyniadau cadarnhaol a negyddol ein gwaith.

Y prif wahaniaeth rhwng SROI a dulliau mesur eraill ydy ei fod yn ein caniatáu i roi gwerth ariannol ar ganlyniadau ein rhanddeiliaid. Y gwerth ariannol yma sydd yn ein galluogi i gyfathrebu mewn iaith gyffredin drwy gymharu'r manteision sydd wedi eu creu gyda'r gost o'u cynhyrchu. Mae hyn yn golygu y gallwn ddangos faint o werth sy'n cael ei greu am bob £1 sydd wedi ei fuddsoddi - er enghraifft, am bob £1 a fuddsoddir mewn prosiect, y gwerth cymdeithasol sy'n cael ei greu ydy £3.50.

Er bod rhifau'n bwysig, nid rhoi pris ar bob dim ydy pwrpas SROI, ond deall gwerth yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae canlyniadau fel meithrin hyder rhieni, neu wella iechyd

meddwl rhywun yn newidiadau gwerthfawr – ond os na allwn eu cymharu â'r gost o'u cynhyrchu, rydym yn llai abl i gyfathrebu eu pwysigrwydd, ac rydym yn cyfyngu ar ein gallu i greu hyd yn oed rhagor o newidiadau cadarnhaol ym mywydau pobl.

### 3. Pwy all ymgeisio?

- Mudiadau gwirfoddol gyda chyfansoddiad. Mae hyn yn cynnwys:
  - ❖ *Grwpiau Cymunedol gyda Chyfansoddiad*
  - ❖ *Elusennau Cofrestredig*
  - ❖ *Cwmnïau Cyfyngedig Drwy Warant*
  - ❖ *Cwmnïau Diddordeb Cymunedol (CDC)*
  - ❖ *Sefydliadau Corfforedig Elusennol (SCE)*
  - ❖ *Cwmnïau Cydweithredol*
- Rhaid cael Bwrdd Ymddiriedolwyr / Bwrdd Cyfarwyddwyr.
- Rhaid bod yn aelodau o Gyngor Gwirfoddol Sirol yn eu hardal.
- Rhaid pennu pa brosiect, gweithgaredd neu wasanaeth o fewn eu mudiad yr hoffent i ni ei ddadansoddi. Rhaid i'r prosiect / gwasanaeth fod yn gynaliadwy ar gyfer oes y prosiect (hyd at Fai 2020).
- Rhaid gallu darparu mynediad i'w cleientiaid / buddiolwyr ynghyd â data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd. Cysylltwch os gwelwch yn dda os ydych yn pryderu am drafod data sensitif.
- Ni ddylid bod yn derbyn cyllid / cymorth arall i bwrpas rheoli gwerth cymdeithasol.

Dylai'r prosiect / gwasanaeth gyd-fynd ag un o'r meysydd allweddol a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Bydd y panel yn dewis cynrychiolaeth deg o blith yr holl themâu a gynhwysir yn yr AAB, a rhoir ystyriaeth i'r anghenion a ganfuwyd yn yr ardal. Y themâu hyn ydy:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Iechyd, anawsterau corfforol a namau ar y synhwyrâu
- Anabledau dysgu ac awtistiaeth

- Iechyd meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Sefydliadau diogel
- Cyn-filwyr
- Digartrefedd

Rhoir ystyriaeth hefyd i'r anghenion a nodir yn yr Asesiad Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 4. Mesur

Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle cyffrous i 30 mudiad ar draws Gogledd Cymru i Fesur a Rheoli eu Gwerth Cymdeithasol. Byddem yn mesur eich gwerth cymdeithasol yn defnyddio'r fframwaith Canfod Gwerth Buddsoddiad Cymdeithasol (edrychwch ar y wybodaeth uchod os gwelwch yn dda).

Mae mesur eich gwerth cymdeithasol yn bwysig, a drwy allu arddangos y newidiadau yr ydych yn helpu i'w creu ym mywydau pobl, gallai'r wybodaeth hon eich helpu gyda'r canlynol:

- Ceisiadau am gyllid
- Comisiynu
- Rheoli penderfyniadau mewnol
- Creu hyd yn oed mwy o werth i'r bobl yr ydym yn gweithio hefo nhw
- A llawer mwy

Os ydych yn llwyddiannus, bydd aelod staff o'ch CGS yn gweithio'n agos efo chi i fesur effaith cymdeithasol eich prosiect / gweithgaredd / gwasanaeth dewisedig. Er mwyn i ni allu gwneud hyn, mae arnom angen:

- Mynediad at eich cleientiaid / buddiolwyr i ddeall beth sydd wedi newid iddyn nhw
- Mynediad at unrhyw ddata sydd gennych ar hyn o bryd



- Rhywfaint o amser aelodau staff i'n helpu i drefnu apwyntiadau, adeiladu systemau monitro ac ati
- Cyswllt rheolaidd

Yr hyn a gewch chi:

- System fonitro newydd i ddeall eich gwerth cymdeithasol wrth fynd yn eich blaenau. Gellid addasu hyn i'w defnyddio ar brosiectau / gwasanaethau eraill o fewn eich mudiad.
- Cymorth gan aelod staff Gwerth Cymdeithasol eich CGS a thîm Social Value Cymru.
- Adroddiad SROI llawn ar eich prosiect / gweithgaredd / gwasanaeth dewisedig.
- Cymorth i ddefnyddio'r adroddiad hwn i reoli ac ymwreiddio'r systemau. (Gweler yr adran reoli am ragor o wybodaeth.)

## 5. Rheoli

Yn ogystal â'r manteision a restrir uchod o ran mesur gwerth cymdeithasol eich gweithgareddau, ceir mantais fawr sydd yn aml yn cael ei diystyru – y modd y gall y wybodaeth hon ein helpu i wneud penderfyniadau sy'n gallu hybu gwerth ein gweithgareddau.

Yn yr un modd ag yn achos cyfrif am werth ariannol, wrth gyfrif am werth cymdeithasol, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon i dreiddio ymhellach i bethau sy'n gallu ein helpu i ddewis rhwng gwahanol opsiynau. Gall hyn eich helpu i:

- Ddeall pam fod gweithgareddau'n gweithio i rai pobl, ac nid i eraill.
- Canfod cyfleoedd i wneud newidiadau i sut yr ydym yn gwneud pethau er mwyn cynyddu gwerth yr hyn yr ydym yn ei wneud.
- Penderfynu lle i fuddsoddi adnoddau rhwng gwahanol weithgareddau.

O gael gwell dealltwriaeth o werth ein gweithgareddau, rydym mewn sefyllfa gryfach i wella a hyd yn oed cyflawni'r effeithiau gorau ar fywydau pobl. Nid ydy hyn yn golygu bod arnom angen lefelau gwyddonol o fanylrwydd - unwaith eto, yn yr un modd ag yn

achos cyfrifyddu ariannol, dylai'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom fod yn ddigon da i'n helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Ni fydd y wybodaeth hon yn cymryd lle'r prosesau sydd eisoes yn eu lle gennych i wneud penderfyniadau, ond yn helpu i wella'r sgysiau am werth eich gwaith. Wrth fynd i'r afael ag Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol, mae'r dystiolaeth sydd gennym yn cynrychioli llais y rheiny yr ydym yn ceisio gwella eu bywydau.

Os ydych yn llwyddiannus, bydd aelod staff o'ch CGS lleol yn eich helpu i greu'r ymagwedd sydd ei hangen er mwyn i ymddiriedolwyr a rheolwyr allu rheoli effaith gymdeithasol eich prosiect / gweithgaredd / gwasanaeth yn well. Er mwyn i ni allu gwneud hyn, bydd arnom angen:

- Ymrwymiad gan Hyrwyddwr Gwerth Cymdeithasol ar lefel bwrdd.
- Parodrwydd gan y mudiad i ymchwilio pethau gan ddefnyddio tystiolaeth o werth cymdeithasol i wella sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau.

## 6. Y Dogfennau a Fynnir

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau a'i harwyddo gan un aelod staff ac un Ymddiriedolwr
- Copi o'ch dogfen lywodraethu wedi'i harwyddo a'i dyddio
- Copi o Gyfrifon Blynyddol diweddaraf y grŵp
- Copi o'r polisiau perthnasol a nodir yn y ffurflen gais
- Manyleb ar gyfer y prosiect
- Manylion am sut y mae'r prosiect yn cael ei ariannu

# 7. Prosesu ceisiadau

## Amserlen

Bydd modd cyflwyno ceisiadau o'r 15<sup>fed</sup> Ionawr 2018 ymlaen

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydy **5pm, dydd Gwener 16<sup>eg</sup> Mawrth 2018**

Hysbysir ymgeiswyr llwyddiannus drwy lythyr o fewn yr wythnos yn dechrau 30ain Mai 2018.

Os ydych yn llwyddiannus, anfonir llythyr cynnig atoch a dylid ei arwyddo a'i ddyddio o fewn pythefnos.

Bydd staff eich CGS lleol mewn cysylltiad i drefnu cyfarfod cychwynnol.